Hugh Owen, Bronclydwr, c. 1639–1700
Pregethwr Piwritanaidd, ‘Apostol Meirion’

Y Cymmro anwyl, edrych yma
Ar fy medd, a dwys ystyria,
Fel yr wyt ti y bum innau
Fel yr wyf fi y byddi dithau:
Gan nad wyf mwy i bregethu,
O’m bedd mynwn wneuthur hyny,
O, Cred yn Nghrist a bydd grefyddol,
Casa bob drwg, a bydd fyw’n dduwiol.

Beddargraff Hugh Owen

Cannwyll o Gristion oedd Hugh Owen a losgai mewn cyfnod tywyll ac anodd yn hanes y ffydd Gristnogol yng Nghymru. Yr unig ffurf gyfreithlon ar Gristnogaeth yng ngwledydd Prydain ar ôl 1662 oedd Anglicaniaeth a cheisiwyd, trwy ddeddfau a chosbi llym, ddileu Ymneilltuaeth. Gwaharddwyd unrhyw wasanaethau nad oedd yn dilyn patrwm y Llyfr Gweddi Gyffredin. Parhaodd y gorthrwm am ddeng mlynedd ar hugain hyd 1689 pan basiwyd Deddf Goddefiad. Y mae hanes Hugh Owen yn ysbrydoliaeth i Gristnogion sy’n cael eu galw i gynnal y ffydd mewn dyddiau llwm.

Fe’i ganed yn Llanegryn yn fab i Humphrey a Susannah Owen. Dyn o gefndir breintiedig ydoedd ac yn perthyn i lawer o deuluoedd bonheddig Meirionnydd ar y pryd. Er enghraifft, yr oedd yn perthyn ar ochr ei fam i’r Barwn Lewis a lofruddiwyd gan Wylliaid Cochion Mawddwy ym 1555, yr un teulu â’r diwinydd enwog Dr John Owen.

Aeth yn fyfyriwr i Goleg Iesu, Rhydychen, ym 1660 ond bu rhaid iddo roi’r gorau iddi o ganlyniad i basio Deddf Unffurfiaeth 1662. Bu am gyfnod yn aelod o eglwys Biwritanaidd Wrecsam, ac

fe'i hetholwyd yn henuriad ynddi. Aeth i Lundain am ychydig lle y priododd â Martha, merch John Brown o Little Ness – Piwritan brwd o Swydd Amwythig a ffrind mawr i Vavasor Powell – ac yna dychwelodd i Gymru. Ym 1672 cyhoeddodd y Brenin Siarl II faddeueb i Ymneilltuwyr i gynnal oedfaon ar yr amod eu bod yn cofrestru y mannau lle y'u cynhelid. Trwyddedwyd Hugh Owen i bregethu yn ei dŷ ei hun, Bronclydwr, Llanegryn, a thrwyddedwyd tai eraill er mwyn eu defnyddio fel canolfannau i rannu'r Efengyl. Gweithiodd yn bennaf trwy'r canolfannau hyn ym Meirionnydd a Maldwyn. Byddai'n mynd ar gylchdaith am gyfnod o dri mis ac yna'n ailgychwyn. Rhaid cofio mai nifer fechan o Ymneilltuwyr oedd yn yr ardaloedd hyn yng nghyfnod yr erlid; nodwyd bod rhyw 161 ym Meirion i gyd ym 1676. Yn ogystal â phregethu a dysgu bu'n gefnogol iawn i argraffu llyfrau defosiynol, gan gefnogi Thomas Gouge a'i fenter gyda'r Ymddiriedolaeth Gymreig. Dosbarthodd 16 copi o *Y Ffydd Ddi-ffuant* gan Charles Edwards.

Credai'n gryf mewn grym gweddi, ac y mae un hanes am weddi o'i eiddo yn newid meddwl swyddog a aeth i'w arestio. Pan gyrhaeddodd y siryf Fronclydwr i'w arestio cytunodd Hugh Owen i fynd gydag ef, ond cyn mynd gofynnodd am ganiatâd i weddïo gyda'i deulu. Gwnaeth y weddi y fath argraff ar y swyddog fel y penderfynodd ei ryddhau.

Yr oedd gan Hugh Owen gymeriad addfwyn, a dangoswyd hynny yn ei ofal dros y tlawd a'r anghenus. Dywedodd ei ŵyr y byddai'n yn ymweld â'r tlodion yn yr ardal yn gyson gan roi cymorth iddynt. Pan fyddai'r tywydd yn ddrwg a'r bobl yn oer, ni fyddai'n meddwl ddwywaith cyn rhannu ei ddillad â hwy. Bu farw ar 15 Mawrth 1700 a chladdwyd ei weddillion ym mynwent Llanegryn.